Papur 10

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JJ/xxxx/22

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

10 Chwefror 2022

Annwyl John

Pan es gerbron sesiwn cyllideb ddrafft y Pwyllgor ar 21 Ionawr, addawais y byddwn yn anfon braslun o'r amserlen gweithredu ar gyfer Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru). Dywedais hefyd y byddwn yn darparu manylion, pan fyddent ar gael, am y gwersi a ddysgwyd o’r ddeddfwriaeth. Rwy'n ymddiheuro am yr oedi byr cyn ymateb ichi.

Gosodwyd y casgliad cyntaf o chwe offeryn statudol ar 12 Ionawr 2022, a bu'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad yn ystyried y rhain yn ddiweddar.

Trefnwyd gosod yr ail gasgliad, sy'n cynnwys pedwar offeryn statudol, fis nesaf. Trefnwyd gosod trydydd casgliad, sef y casgliad olaf, yn ystod mis Mehefin. Mae wyth offeryn statudol yn y casgliad olaf hwn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, os gellir cyfuno rhai o'r darpariaethau mewn nifer llai o offerynnau statudol sy'n fwy eang, mae'n bosibl y bydd llai na hynny yn y pen draw. Rwy'n atodi manylion yr offerynnau statudol sy'n rhan o bob casgliad i'r llythyr hwn. Rwyf hefyd yn cynnwys manylion y gwahanol ddogfennau canllaw sydd eisoes wedi cael eu cyhoeddi, yn ogystal â'r dogfennau a gaiff eu cyhoeddi yn ystod yr wythnosau sydd i ddod.

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cadarnheais y byddwn yn cynnal ymarfer 'gwersi a ddysgwyd' ar ôl i'r ddeddf gael ei rhoi ar waith, a byddaf yn sicrhau y caiff y manylion eu rhannu â'r Pwyllgor maes o law.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 1**

**Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) - Amserlen Gweithredu**

Offerynnau Statudol

**Casgliad 1 – gosodwyd 12 Ionawr 2022**
- Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi
- Darpariaethau Atodol (gan gynnwys rhai ar gyfer contractau safonol â chymorth)
- Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol o Gontractau Meddiannaeth a Gwybodaeth Esboniadol
- Atodlen 9A (cyfyngiadau pellach ar Hysbysiad y Landlord)

**Casgliad 2 – i'w gosod ym mis Mawrth 2022**
- Ffurflenni a hysbysiadau rhagnodedig
- Adolygiadau o benderfyniadau i estyn neu derfynu contractau safonol rhagarweiniol neu gontractau safonol ymddygiad gwaharddedig
- Cynlluniau Blaendal (Gwybodaeth Ragnodedig)
- Diogelu eiddo mewn anheddau y cefnwyd arnynt

**Casgliad 3 – i'w gosod ym mis Mehefin 2022**
- Pennu Rhenti (contractau wedi'u trosi)
- Diwygiadau i Atodlenni 2/3/8A/9/9B
- Diwygiadau i Atodlen 12
- Trefniadau ar gyfer Tenantiaethau Diogel sy'n Denantiaethau Cymdeithas Dai a Thenantiaethau Hir
- Diwygiadau Canlyniadol (x2)
- Darpariaethau Trosiannol

Canllawiau ac Adnoddau Ategol

Mae'r canllawiau a'r dogfennau eraill hyn eisoes wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Rhentu Cartrefi Llywodraeth Cymru:

- Canllawiau cyffredinol i landlordiaid
- Canllawiau cyffredinol i denantiaid
- Ffitrwydd tai i fod yn gartref: canllawiau i landlordiaid
- Datganiad ysgrifenedig enghreifftiol ar gyfer contractau diogel
- Datganiad ysgrifenedig enghreifftiol ar gyfer contractau safonol cyfnodol
- Datganiad ysgrifenedig enghreifftiol ar gyfer contractau safonol cyfnod penodol
- Canllawiau i greu contractau pan nad yw datganiadau ysgrifenedig enghreifftiol yn gymwys (contractau safonol rhagarweiniol, contractau safonol ymddygiad gwaharddedig a chontractau safonol â chymorth)
- Llety â chymorth: canllawiau gwahardd dros dro

Caiff y canlynol eu cyhoeddi yn ystod mis Chwefror:

- Canllawiau hawdd eu deall i denantiaid/deiliaid contract
- Pecyn cymorth i randdeiliaid
- Canllawiau ar drosi tenantiaeth neu drwydded bresennol yn gontract meddiannaeth o dan y Ddeddf Rhentu Cartrefi (gan ddefnyddio contract cyfnodol fel enghraifft)

I'w cyhoeddi erbyn diwedd mis Mai:

- Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi: dogfen ganllaw i ddeiliaid contract
- “Eich Datganiad Ysgrifenedig”: Canllaw i ddeiliaid contract: Contract Safonol
- “Eich Datganiad Ysgrifenedig”: Canllaw i ddeiliaid contract: Contract Diogel